**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

# Cyflenwi Ar Gyfer Absenoldeb Athrawon

Mai 2014

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8041
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: Pwyllgor.Cyfrifoncyhoeddus@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2014
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

# Cyflenwi Ar Gyfer Absenoldeb Athrawon

Mai 2014

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**
Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011.

**Pwerau**
Nodir pwerau'r Pwyllgor yn Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru a nodir swyddogaethau penodol y Pwyllgor yn Rheol Sefydlog 18 (ar gael yn **www.cynulliadcymru.org**). Yn benodol, caiff y Pwyllgor ystyried adroddiadau gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfrifon Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill, ac ar yr economi, a pha mor effeithlon ac effeithiol y caiff adnoddau eu defnyddio wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus.

**Aelodau cyfredol y Pwyllgor**



**Darren Millar (Cadeirydd)**
Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin Clwyd



**William Graham**
Ceidwadwyr Cymreig
Dwyrain De Cymru



**Mike Hedges**
Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe



**Alun Ffred Jones**
Plaid Cymru
Arfon



**Sandy Mewies**
Llafur Cymru
Delyn



**Julie Morgan**
Llafur Cymru
Gogledd Caerdydd



**Jenny Rathbone**
Llafur Cymru
Canol Caerdydd



**Aled Roberts**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Gogledd Cymru

Roedd yr Aelod canlynol hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Jocelyn Davies**
Dwyrain De Cymru
Plaid Cymru



**Mohammad Asghar (Oscar)**
Ceidwadwyr Cymreig
Dwyrain De Cymru

## Cynnwys


**Rhagair y Cadeirydd** ........ **5**

**Argymhellion y Pwyllgor** ........ **6**

**1. Rhagarweiniad** ........ **9**

**2. Lleihau absenoldeb athrawon** ........ **11**

Y tueddiadau o ran absenoldeb athrawon ........ 11

Gwella'r gallu i reoli absenoldeb oherwydd salwch ........ 14

Gwella'r cymorth adnoddau dynol i ysgolion ........ 17

**3. Lleihau effaith absenoldeb athrawon ar ddysgwyr** ........ **20**

Annog arweinwyr ysgolion i dalu mwy o sylw i effaith gwersi gan athrawon cyflenwi ar gynnydd dysgwyr. ........ 20

Rheoli trefniadau cyflenwi yn well i leihau eu heffaith ar ddysgwyr 23

Effaith trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb o ran polisïau a mentrau Llywodraeth Cymru. ........ 24

Gwella datblygiad proffesiynol parhaus athrawon cyflenwi ........ 27

Effeithiolrwydd y trefniadau newydd ar gyfer athrawon newydd gymhwyso sy'n ymsefydlu ac yn ymgymryd â'r Meistr mewn Ymarfer Addysgol drwy gyfrwng gwaith cyflenwi ........ 29

**4. Trefniadau cyflenwi costeffeithiol a diogel** ........ **33**

Sicrhau bod arian sy'n cael ei wario ar drefniadau cyflenwi yn cael ei reoli'n fwy effeithiol ........ 33

Cadw disgyblion yn ddiogel ........ 34

**Tystion** ........ **36**

**Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig** ........ **37**

## Rhagair y Cadeirydd

Mae'r angen am drefniadau cyflenwi priodol ac effeithiol yn yr ystafell ddosbarth pan fydd athrawon yn absennol yn hollbwysig i sicrhau bod disgyblion yn cael yr addysg orau bosibl. Mae'n anorfod na fydd yr athro neu'r athrawes a benodwyd yn medru addysgu pob gwers, boed hynny oherwydd absenoldeb a gynlluniwyd neu absenoldeb heb ei gynllunio, ond ni ddylai hynny olygu gostyngiad yn ansawdd yr addysg y bydd plant Cymru yn ei chael.

Wrth drafod adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, synnwyd y Pwyllgor nad yw'r gwersi a addysgir gan athrawon cyflenwi yn cael eu monitro. Mae'r ffaith fod athrawon cyflenwi'n darparu gwersi heb i unrhyw werthusiad gael ei wneud o'r effaith ar ddisgyblion yn peri pryder i'r Pwyllgor. At y diben hwn, rydym yn croesawu'r gydnabyddiaeth a gawsom gan Lywodraeth Cymru o ran y broblem hon, a'r camau y mae'n eu cymryd i ddatrys hyn.

Yn ychwanegol at y diffyg o ran monitro gwersi a ddarperir gan athrawon cyflenwi, canfu'r Pwyllgor bod y cymorth a oedd ar gael i athrawon yn brin, o ran datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer athrawon cyflenwi, a hefyd o ran y cymorth sydd ar gael i benaethiaid reoli absenoldeb athrawon.

Mae'r Pwyllgor wedi gwneud nifer o argymhellion yn yr adroddiad hwn gyda'r nod o fynd i'r afael â'r materion hyn. Wrth gydnabod yr ymrwymiadau a wnaeth Llywodraeth Cymru i weithredu yn y maes hwn, bydd y Pwyllgor yn dychwelyd at y pwnc hwn eto, ac rydym yn argymell ein bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am hyn gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2015.

## Argymhellion y Pwyllgor

Mae argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru i'w gweld isod, yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr adroddiad hwn. Ewch i'r tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth sy'n cyd-fynd â'r argymhellion a'r casgliadau:

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn casglu ac yn dosbarthu data perthnasol a dibynadwy am absenoldeb athrawon o'r ystafell ddosbarth er mwyn gallu monitro nifer yr absenoldebau a'r rhesymau drostynt. (Tudalen 13)

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal gwerthusiad o effeithiolrwydd y gwahanol fathau o hyfforddiant, ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor erbyn mis Ionawr 2015. Dylai'r gwerthusiad hwn gynnwys effaith y gwahanol fathau o hyfforddiant ar lefelau absenoldeb athrawon yn yr ystafell ddosbarth. (Tudalen 13)

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn diwygio'r rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol bod o leiaf un aelod o bob corff llywodraethu yn cael ei ddynodi i arwain ar faterion adnoddau dynol, a bod pob aelod o'r fath wedi'i hyfforddi'n briodol i gyflawni'r rôl hon. (Tudalen 16)

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r hyfforddiant (ee trwy broses fentora'r Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth/y flwyddyn gyntaf) a ddarperir i benaethiaid i sicrhau bod pwyslais ar reoli absenoldeb athrawon. Dylai'r sylw a roddir i reoli absenoldeb gael ei ymgorffori yn natblygiad proffesiynol parhaus penaethiaid hefyd. (Tudalen 17)

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru, ar y cyd ag awdurdodau lleol, yn sicrhau, pan gaiff gwasanaethau adnoddau dynol eu caffael gan ysgolion o awdurdodau lleol, bod y cytundebau lefel gwasanaeth yn cael eu cryfhau er mwyn sicrhau bod penaethiaid a llywodraethwyr yn cael cymorth adnoddau dynol digonol, yn ogystal â hyfforddiant ac arweiniad priodol, fel bod materion adnoddau dynol sy'n ymwneud â staff cyflenwi yn cael eu rheoli'n briodol. (Tudalen 19)

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru:

a) amlinellu sut y mae'n disgwyl i Estyn arolygu dosbarthiadau dan arweiniad athrawon cyflenwi, ac adrodd amdanynt;

b) newid y canllawiau ar gyfer arolygiadau Estyn erbyn mis Medi 2014 i'w gwneud yn ofynnol i arolygwyr roi ystyriaeth benodol i'r trefniadau cyflenwi;

c) darparu tystiolaeth glir i'r Pwyllgor bod y dull hwn yn gweithio gan nodi'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg yn y dull hwn, erbyn mis Medi 2015.

Rydym yn disgwyl i'r wybodaeth ddiweddaraf am fanylion y newidiadau i'r canllawiau, a braslun o'r modd y mae'r dull diwygiedig yn gweithio, gael ei chyflwyno i'r Pwyllgor erbyn mis Ionawr 2015. (Tudalen 23)

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi amserlen ar gyfer dosbarthu canllawiau ynghylch rheoli trefniadau cyflenwi yn effeithiol, ynghyd â chynllun ar gyfer gwerthuso'r canllawiau hynny. Byddai'r Pwyllgor yn disgwyl cael y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith hwn erbyn mis Ionawr 2015.
(Tudalen 24)

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwerthuso ei holl bolisïau, fel datblygu gwahanol fathau o hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus sy'n dibynnu llai ar fod athrawon yn absennol o'r ystafell ddosbarth, a galwadau'r consortia rhanbarthol ar ysgolion, a'i bod yn ystyried yr effaith a gafodd y rhain ar yr angen am wasanaeth cyflenwi. Gofynnwn i ganlyniad y gwerthusiad gael ei adrodd i'r Pwyllgor erbyn mis Ionawr 2015.
(Tudalen 26)

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i sicrhau bod datblygiad proffesiynol parhaus drwy ysgolion ac awdurdodau lleol ar gael i athrawon cyflenwi, ac yn sicrhau eu bod yn datblygu dull effeithiol o roi gwybod i athrawon cyflenwi am y cyfleoedd hyn. (Tudalen 29)

**Argymhelliad 10 .**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chynrychiolwyr o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, asiantaethau cyflenwi ac ysgolion i ddatblygu'r fanyleb ar gyfer aildendro'r contract fframwaith ar gyfer staff cyflenwi ysgolion. Dylai'r fanyleb ei gwneud yn ofynnol bod staff cyflenwi yn gallu cael gafael ar ddatblygiad proffesiynol parhaus, a dylai gynnwys trefniadau i adennill

oddi wrth yr asiantaethau cyflenwi unrhyw gostau ychwanegol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus staff cyflenwi. (Tudalen 29)

**Argymhelliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnwys costau'r cwrs Meistr mewn Ymarfer Addysgol, a'r nifer sy'n cofrestru arno, wrth werthuso'r rhaglen. (Tudalen 32)

**Argymhelliad 12.** Rydym hefyd yn argymell bod gwerthusiad yn cael ei wneud o elfen mentoriaid y rhaglen Meistr mewn Ymarfer Addysgol cyn diwedd 2014 er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon nad yw'n sicrhau gwerth am arian. Dylai'r gwerthusiad gynnwys ystyried defnyddio athrawon sydd newydd ymddeol fel mentoriaid ac effaith tynnu athrawon profiadol o'r ystafelloedd dosbarth i'w defnyddio fel mentoriaid. (Tudalen 32)

**Argymhelliad 13.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn casglu rhagor o wybodaeth am raddau a chost y trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi amserlen a chynllun ar gyfer casglu'r wybodaeth hon ac yn rhoi manylion ynghylch sut y caiff gwerth am arian ei fonitro a'i werthuso. (Tudalen 34)

**Argymhelliad 14.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod canllawiau arfaethedig Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â'r materion diogelu a nodwyd ar gyfer staff dros dro, ac yn gwneud hynny'n glir, a bod Llywodraeth Cymru yn datblygu dull effeithiol o wirio bod y canllawiau yn cael eu dilyn. Dylai'r Pwyllgor gael y wybodaeth ddiweddaraf am hyn erbyn mis Ionawr 2015. (Tudalen 35)

# 1. Rhagarweiniad

1. Cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) ei adroddiad '*Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon'* ar 17 Medi 2013. Mae'r adroddiad yn ystyried a yw dysgwyr, ysgolion ac arian cyhoeddus yn cael eu gwasanaethu'n dda gan drefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon.[1]

2. Cafodd y trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon eu harchwilio gan yr Archwilydd Cyffredinol mewn partneriaeth ag Estyn – Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.[2] Daeth adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad nad yw'r trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon yng Nghymru yn cael eu rheoli'n ddigon da i gefnogi cynnydd dysgwyr neu i wneud y defnydd gorau o adnoddau.

3. Canfu'r adroddiad fel a ganlyn:

- Mae gwariant ar drefniadau cyflenwi'n codi a chynnydd dysgwyr yn cael ei lesteirio wrth i nifer cynyddol o wersi gael eu harwain gan staff cyflenwi;
- Ni chaiff trefniadau cyflenwi eu rheoli'n ddigon da i sicrhau bod dysgwyr yn gwneud cynnydd da a'u bod yn cael eu diogelu;
- Nid yw Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn rhoi digon o ystyriaeth i effaith absenoldeb athrawon yn eu mesurau i helpu ysgolion i sicrhau deilliannau gwell ar gyfer dysgwyr;
- Nid yw'r arian sy'n cael ei wario ar drefniadau cyflenwi bob amser yn cael ei reoli'n effeithiol.[3]

4. Cafodd y Pwyllgor sesiwn friffio ar yr adroddiad hwn gan yr Archwilydd Cyffredinol, swyddogion o Swyddfa Archwilio Cymru ac Estyn yn ei gyfarfod ar 15 Hydref 2013, a chytunodd i gynnal ymchwiliad byr i'r canfyddiadau. Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Lywodraeth Cymru ar 21 Ionawr 2014, a thrafododd dystiolaeth bellach a gyflwynwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol, Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC). Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys ei

---

[1] Swyddfa Archwilio Cymru, *Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon*, Medi 2013
[2] Estyn, *Effaith Absenoldeb Athrawon*, Medi 2013
[3] Swyddfa Archwilio Cymru, *Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon*, Medi 2013, (Crynodeb)

hymateb i'r argymhellion a wnaed gan yr Archwilydd Cyffredinol.[4] Derbyniodd Llywodraeth Cymru argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol yn llawn, ond nododd bod y cyfrifoldeb am rai camau gweithredu allweddol ar ysgwyddau eraill hefyd, gan gynnwys awdurdodau a chonsortia lleol, ysgolion, ac asiantaethau cyflenwi.[5]

5. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu canfyddiadau gwaith y Pwyllgor ac mae'n gwneud nifer o argymhellion i Lywodraeth Cymru, sydd i'w gweld yn yr adroddiad hwn.

[4] Tystiolaeth Ysgrifenedig, PAC(4)-02-14 (papur 1), 21 Ionawr 2014
[5] Tystiolaeth Ysgrifenedig, PAC(4)-02-14 (papur 1), 21 Ionawr 2014

## 2. Lleihau absenoldeb athrawon

6. Rhan bwysig o reoli absenoldeb athrawon a'r gofynion cyflenwi yn sgil hynny yw ystyried a yw'n bosibl lleihau absenoldeb athrawon, boed hwnnw wedi'i gynllunio neu heb ei gynllunio. Mae'r bennod hon yn archwilio nifer o themâu o ran lleihau absenoldeb athrawon.

**Y tueddiadau o ran absenoldeb athrawon**

7. Canfu adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol fod cynnydd yn nifer y gwersi sy'n cael eu rhoi gan athrawon cyflenwi. Mae'n amcangyfrif bod cynnydd o bron 10% yn nifer y dosbarthiadau a addysgir gan athrawon cyflenwi allanol (ac eithrio unrhyw drefniadau cyflenwi mewnol wedi'u cynllunio sy'n galluogi athrawon i gael amser cynllunio, paratoi ac asesu (CPA)) rhwng 2008-09 a 2011- 12.[6] Mae'r adroddiad yn amcangyfrif ei bod yn debygol bod ychydig o dan 10% o wersi disgyblion yn cael eu harwain gan rywun heblaw eu hathro parhaol.[7]

8. Canfu'r adroddiad hefyd nad yw ysgolion nac awdurdodau lleol yn monitro'n ddigonol y rhesymau dros absenoldeb athrawon. [8] Roedd y Pwyllgor yn synnu bod cyn lleied o sylw yn cael ei roi i lefel yr absenoldeb yn yr ystafell ddosbarth a'r effaith ar ddysgwyr ac roedd yn bryderus bod y diffyg monitro yn ei gwneud yn anodd deall y rhesymau pam y mae angen gwasanaeth cyflenwi, ac felly a geir gwerth am arian.

9. Holodd y Pwyllgor y Cyfarwyddwr Cyffredinol Addysg a Sgiliau (y Cyfarwyddwr Cyffredinol) pam fod y lefelau absenoldeb mor uchel. Dywedodd wrth y Pwyllgor:

> "The first thing is that there is inevitability about the fact that we will have a requirement for supply teachers. The workload agreement and the 'rarely cover' provisions, mean that, even on a day-to-day basis, just through Welsh Government interventions, we would expect some supply cover to be needed. Of course, you will always get sickness absence within, but that is not to say that we are not looking at some of the

[6] Swyddfa Archwilio Cymru, *Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon*, Medi 2013, paragraff 1.10
[7] Swyddfa Archwilio Cymru, *Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon*, Medi 2013, paragraff 1.11
[8] Swyddfa Archwilio Cymru, *Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon*, Medi 2013, paragraff 1.14

findings around the actual levels of sickness absence, particularly how it was monitored and how effective our control of it is. If you drill down to the bit that is almost out of our control but which we should be looking at, which is the actual sickness element, it is higher than England."[9]

10. Mewn gohebiaeth ysgrifenedig ddilynol, derbyniodd Llywodraeth Cymru y canfyddiad yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol nad yw absenoldeb athrawon yn cael ei fonitro fel mater o drefn, a dywedodd:

> "Rydym ni felly'n methu â chadarnhau a oes patrwm o achosion mewn perthynas ag absenoldeb salwch athrawon. Fodd bynnag byddwn ni'n codi'r mater hwn yn ein trafodaethau gyda CLlLC gan ofyn iddyn nhw gydweithio gydag awdurdodau lleol i sefydlu system gyson ar gyfer casglu'r data hwn a fyddai'n caniatáu dadansoddiad manylach o'r holl absenoldebau."[10]

11. Er bod y Pwyllgor yn croesawu trafodaethau Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am gasglu data, nid ydym yn argyhoeddedig bod hyn yn ddigonol a byddem yn hoffi gweld camau mwy brys yn cael eu cymryd cyn gynted ag y bo modd. Mae casglu data effeithiol am absenoldeb yn hanfodol i sicrhau y gellir datblygu atebion priodol a'u rhoi ar waith. Heb hyn, mae'n anodd gweld a yw'r swm sylweddol a fuddsoddir mewn trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon yn sicrhau gwerth am arian.

12. Eglurodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol wrth y Pwyllgor y bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau i ysgolion ar leihau absenoldeb athrawon o'r ystafell ddosbarth, ac mae'n bwriadu cynnwys yr angen i ddatblygu polisi cyflenwi pan fyddant yn adolygu'r rheoliadau ar gyfer cynlluniau datblygu ysgolion. Dywedodd y bydd yn ofynnol i benaethiaid roi gwybod i lywodraethwyr am absenoldeb athrawon.[11]

13. Ar y cyfan, mae'r Pwyllgor yn croesawu'r gofyniad newydd hwn i adrodd, ond mae am gael rhagor o eglurder ynghylch a fydd hynny'n cynnwys adrodd ar y math o wasanaeth cyflenwi a ddefnyddir ee athro cyflenwi neu adnoddau mewnol, er mwyn gallu gwerthuso'r agweddau gwerth am arian.

---

[9] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 21 Ionawr 2014, paragraff 12
[10] PAC(4)06-14 (papur 2), 18 Chwefror 2014
[11] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 21 Ionawr 2014, paragraff 20

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn casglu ac yn dosbarthu data perthnasol a dibynadwy am absenoldeb athrawon o'r ystafell ddosbarth er mwyn gallu monitro nifer yr absenoldebau a'r rhesymau drostynt.**

14. Dywedodd Cyfarwyddwr Grŵp y Gweithlu Safonau Ysgolion (y Cyfarwyddwr Grŵp) bod y rhesymau dros absenoldeb yn cynnwys hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus, yn ogystal â salwch. Eglurodd fod tair lefel yr oedd angen eu hystyried ar gyfer hyfforddiant:

> "It really is important to look at it at those three levels, namely the perspective of Welsh Government, the perspective of the local authorities and the consortia, and then within schools, so that we look at all the possible methods of carrying out professional development and that we learn from the best methods that are most effective, and then actually carry out an assessment. Therefore, at each level, we are asking people to carry out an assessment. So, for the Welsh Government, from this point onwards—in fact, it is already in operation—we are asking all programme developers and leaders to put in that they have assessed the form of delivery and that they have looked at it in terms of the cost benefits."[12]

15. Mae'r cysyniad o gyflwyno asesiad i ddod o hyd i'r dull mwyaf priodol o gyflwyno hyfforddiant yn fan cychwyn da i reoli absenoldeb athrawon yn y maes hwn. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn pryderu y gallai hyn ddatblygu'n 'broses ticio blychau' ac na fydd yn arwain at y newidiadau sydd eu hangen. Er mwyn i'r broses fod yn effeithiol, mae'r Pwyllgor yn credu bod rhaid i Lywodraeth Cymru gynnwys gwerthusiad o effaith yr asesiadau hyn.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal gwerthusiad o effeithiolrwydd y gwahanol fathau o hyfforddiant, ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor erbyn mis Ionawr 2015. Dylai'r gwerthusiad hwn gynnwys effaith y gwahanol fathau o hyfforddiant ar lefelau absenoldeb athrawon yn yr ystafell ddosbarth.**

[12] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 21 Ionawr 2014, paragraff 17

## Gwella'r gallu i reoli absenoldeb oherwydd salwch

16. Canfu adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol bod cyfradd absenoldeb athrawon oherwydd salwch yn sylweddol uwch yng Nghymru o gymharu â Lloegr, ac awgrymodd bod lle i leihau absenoldeb athrawon oherwydd salwch yng Nghymru. Noda'r adroddiad fel a ganlyn:

> "Trwy ostwng lefel absenoldeb oherwydd salwch yng Nghymru i lefel Lloegr, amcangyfrifwn y gellid torri 60,000 diwrnod oddi ar nifer y diwrnodau sy'n rhaid trefnu darpariaeth gyflenwi ar eu cyfer yn ysgolion Cymru, gan arbed dros £9 miliwn y flwyddyn mewn costau cyflenwi."[13]

17. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol wrth y Pwyllgor bod cyfanswm nifer y diwrnodau o absenoldeb oherwydd salwch wedi gostwng 25,000 y llynedd. Fodd bynnag, pwysleisiodd bod Llywodraeth Cymru yn pryderu bod angen i ysgolion reoli absenoldeb oherwydd salwch yn well i leihau'r amrywiadau rhwng cynghorau a rhwng Cymru a Lloegr.[14]

18. Trafododd y Pwyllgor â Llywodraeth Cymru pa gamau y gellid eu cymryd i fynd i'r afael â'r nifer cyfartalog uwch o ddiwrnodau salwch a gymerir gan athrawon yng Nghymru o gymharu â Lloegr. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol wrth y Pwyllgor:

> "...it is possible to bring down sickness absence through careful management, and we will be looking to share some of the better practice from areas such as Ceredigion with some of the local authorities where there is poorer provision."[15]

19. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r sicrwydd hwn y bydd yr arfer gorau yn cael ei rannu ag awdurdodau lleol, yn enwedig o ystyried y gwahaniaethau mawr rhwng cynghorau, fel y nodwyd yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol.[16]

---

[13] Swyddfa Archwilio Cymru, *Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon*, Medi 2013, paragraff 1.18
[14] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 21 Ionawr 2014, paragraff 90
[15] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 21 Ionawr 2014, paragraff 13
[16] Swyddfa Archwilio Cymru, *Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon*, Medi 2013, tudalen 63, ffigur 11

20. Gofynnodd y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru a oedd yn bwriadu cyhoeddi data am absenoldeb oherwydd salwch ar lefel awdurdodau lleol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol wrth y Pwyllgor:

> "I think that that would be the aim, and not just at local authority level. …, but the experience that the department has had over the past couple of years is that when we have begun the stocktakes, where we went in and looked at the data of various schools, it became fairly apparent that most individual schools were unaware of their performance vis-à-vis competing schools.
>
> "…However, what we are seeing is that local authorities will now be scrutinised far more strictly on how their performance is against competing local authorities."[17]

21. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ymrwymiad i ryddhau data am absenoldeb oherwydd salwch ar lefel ysgolion, a fydd yn caniatáu ar gyfer mwy o graffu a meincnodi perfformiad. Mae'r Pwyllgor yn disgwyl y bydd cymaint o ddata â phosibl yn cael eu cyhoeddi, er ein bod yn cydnabod y gall fod rhai problemau o ran cyhoeddi data ar gyfer ysgolion bach. Bydd hyn yn gyfle i rieni a llywodraethwyr ddal yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad, gan godi safonau o bosibl.

22. Dywedwyd wrth y Pwyllgor y bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar reoliadau ar gyfer llywodraethwyr ysgolion yn 2014, ynghyd â'r gofyniad i graffu ar absenoldeb athrawon. Rydym yn pryderu nad oedd y broses adrodd yn digwydd fel mater o drefn ym mhob ysgol ar hyn o bryd. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol wrth y Pwyllgor nad oedd hyn yn digwydd fel mater o drefn oherwydd:

> "One element is that headteachers would tend to react to their own experiences. The other element is that they would tend to react to the regulatory framework and what they are expected to do. The strength of understanding of what is good practice, probably, has not been established fully enough across all headteachers. The best headteachers would report to their governors as a matter of course, although I am sure that we

[17] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 21 Ionawr 2014, paragraffau 42-43

> could meet a significant number of governors who have not seen a report."[18]

23. Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, mae'r Pwyllgor yn croesawu'r bwriad i gynnwys, mewn canllawiau, y gofyniad i lywodraethwyr gael gwybodaeth am absenoldeb athrawon. Fodd bynnag, mae gennym rai pryderon ynghylch a oes gan lywodraethwyr ddigon o gymorth i allu cyflawni'r swyddogaeth hon. Er mwyn craffu'n effeithiol ar absenoldeb mewn ysgolion, bydd angen i lywodraethwyr gael hyfforddiant digonol mewn adnabod y ffactorau allweddol mewn absenoldeb/perfformiad. Mae'r Pwyllgor yn credu mai'r ffordd orau o gyflawni hyn fyddai cynnwys llywodraethwr ar bob corff sydd â rhywfaint o arbenigedd ym maes adnoddau dynol.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn diwygio'r rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol bod o leiaf un aelod o bob corff llywodraethu yn cael ei ddynodi i arwain ar faterion adnoddau dynol, a bod pob aelod o'r fath wedi'i hyfforddi'n briodol i gyflawni'r rôl hon.**

24. O ystyried pwysigrwydd rôl y Pennaeth o ran rheoli absenoldeb oherwydd salwch, holodd y Pwyllgor a oedd y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP) yn cynnwys hyfforddiant ar reoli absenoldeb. Dywedodd y Dirprwy Gyfarwyddwr Safonau Ymarferwyr a Datblygu Proffesiynol (y Dirprwy Gyfarwyddwr) wrth y Pwyllgor:

> "Successful award of the NPQH is dependent on providing evidence of meeting the leadership standards. The leadership standards include a section on managing the school, which includes a responsibility for managing staff. The standards do not go down to the level of detail of actually referring specifically to managing absence, but certainly include managing staff to achieve the aims and priorities of the school."[19]

25. O ystyried y pwysigrwydd o reoli absenoldeb oherwydd salwch mewn ysgolion, a'r arbedion posibl y gellid eu cyflawni drwy reoli lefelau salwch yn well, mae'r Pwyllgor yn credu y dylai hyn fod yn elfen benodol o'r CPCP. Rydym yn croesawu ymrwymiad y Cyfarwyddwr

---

[18] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 21 Ionawr 2014, paragraff 20
[19] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 21 Ionawr 2014, paragraff 52

Cyffredinol i ystyried yr opsiwn hwn a hefyd i ystyried y gefnogaeth a roddir i benaethiaid yn fwy cyffredinol ar reoli absenoldeb fel rhan o'u hyfforddiant a datblygiad parhaus.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r hyfforddiant (ee trwy broses fentora'r Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth/y flwyddyn gyntaf) a ddarperir i benaethiaid i sicrhau bod pwyslais ar reoli absenoldeb athrawon. Dylai'r sylw a roddir i reoli absenoldeb gael ei ymgorffori yn natblygiad proffesiynol parhaus penaethiaid hefyd.**

**Gwella'r cymorth adnoddau dynol i ysgolion**

26. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yng Nghymru yn prynu cymorth adnoddau dynol gan eu hawdurdod lleol drwy gytundeb lefel gwasanaeth (CLG).[20] Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi amrywiaeth o faterion adnoddau dynol problemus mewn ysgolion, gan gynnwys rheoli absenoldeb tymor hir, statws cyflogaeth unigolion sy'n gweithio yn yr ysgol, cyflogi ffrindiau a theulu, a'r rheoliadau gweithwyr asiantaeth fel y maent yn berthnasol i athrawon. Canfu'r adroddiad hefyd bod yr ysgolion y buont yn ymweld â hwy yn gwerthfawrogi gwasanaeth swyddogion adnoddau dynol a oedd yn gyfarwydd â thelerau ac amodau athrawon.

27. Roedd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn cynnwys astudiaeth achos o Gyngor Casnewydd lle'r oedd cymorth adnoddau dynol effeithiol, drwy gyflwyno polisi presenoldeb a fframwaith gweithredu, wedi cael effaith gadarnhaol ar y lefelau absenoldeb. Er bod hyn yn enghraifft o gymorth adnoddau dynol da, mynegodd y Pwyllgor bryderon y gallai gwendidau posibl yng nghymorth adnoddau dynol ehangach yr awdurdod lleol effeithio ar allu ysgol i reoli presenoldeb yn effeithiol. Mewn ymateb i bryderon y Pwyllgor, dywedodd y Cyfarwyddwr Grŵp:

> "There has been, in brief, a history whereby authorities have tended to centralise their HR support. So, the experts that they have are really experts very often on local government terms and conditions. Teachers' terms and conditions are very different. Therefore, the advice given to headteachers, we are told, has been much worse in some cases than in others. Therefore, the need for uniform advice by people that really

---

[20] Swyddfa Archwilio Cymru, *Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon*, Medi 2013, paragraff 3.17

> understand teachers' terms and conditions has been made clear from the Robert Hill report. As an ex-headteacher and ex-director of education, I would say that it is very important to have that."[21]

28. Yn dilyn sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor, ysgrifennodd yr Archwilydd Cyffredinol at y Pwyllgor ac awgrymodd ei bod yn bosibl bod y cytundebau lefel gwasanaeth presennol ar gyfer gwasanaethau adnoddau dynol yn annigonol, mewn rhai achosion, i ddarparu'r cymorth angenrheidiol sydd ei angen ar ysgolion.[22]

29. Mae'r Pwyllgor yn nodi, gyda phryder arbennig, y canfyddiadau yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol nad yw pob ysgol yn deall effaith lawn Rheoliadau Gweithwyr Asiantaeth 2010. O ganlyniad i'r rheoliadau hyn, gallai staff dros dro fod â hawliau cyflogaeth ychwanegol ar ôl iddynt weithio i'r un cyflogwr am 12 wythnos. Mae hyn yn peri pryder arbennig o ran cyflenwi ar gyfer absenoldeb oherwydd salwch na ellir rhagweld am ba hyd y bydd yn parhau.

30. Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylid cryfhau'r trefniadau ar gyfer cymorth adnoddau dynol drwy'r cytundebau lefel gwasanaeth i sicrhau bod ysgolion yn deall Rheoliadau Gweithwyr Asiantaeth 2010. At hynny, byddem yn hoffi gweld ysgolion yn cysylltu â'u gwasanaethau adnoddau dynol yn gynt pan fydd posibilrwydd y bydd staff sy'n cyflenwi am gyfnodau byr iawn yn cael estyniad i'w cyfnod gwasanaeth y tu hwnt i 12 wythnos, fel rhan o sgwrs barhaus am gyflenwi ar gyfer absenoldeb.

31. Yn adroddiad Robert Hill *Darparu gwasanaethau addysg yng Nghymru yn y dyfodo* [23] argymhellwyd cryfhau'r cymorth adnoddau dynol yn y consortia gwella, a oedd yn argymhelliad a gefnogwyd gan swyddogion Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nid yw'n glir i ni pam na ellid cael arbenigwyr adnoddau dynol cyffredinol, sydd â dealltwriaeth briodol o delerau ac amodau'r sector addysg, i fynd i'r afael â'r materion adnoddau dynol hyn, a'r rhai a nodwyd yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol.

32. Mae darparu adnoddau dynol priodol yn fater o bryder i'r Pwyllgor. Er nad ydym wedi clywed llawer o dystiolaeth i'n darbwyllo

---

[21] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 21 Ionawr 2014, paragraff 26
[22] PAC(4)06-14 (papur 3), 18 Chwefror 2014
[23] Robert Hill - *Darparu gwasanaethau addysg yng Nghymru yn y dyfodol*, Mehefin 2013

bod angen cynghorwyr adnoddau dynol arbenigol ar ysgolion, byddem yn disgwyl i'r gefnogaeth gyffredinol fod yn briodol ac yn ateb y diben. Yn hyn o beth, byddem yn disgwyl arweiniad cryf gan Lywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau y ceir y gwerth gorau am arian gan y math o gymorth adnoddau dynol cyffredinol sy'n weithredol ar hyn o bryd.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru, ar y cyd ag awdurdodau lleol, yn sicrhau, pan gaiff gwasanaethau adnoddau dynol eu caffael gan ysgolion o awdurdodau lleol, bod y cytundebau lefel gwasanaeth yn cael eu cryfhau er mwyn sicrhau bod penaethiaid a llywodraethwyr yn cael cymorth adnoddau dynol digonol, yn ogystal â hyfforddiant ac arweiniad priodol, fel bod materion adnoddau dynol sy'n ymwneud â staff cyflenwi yn cael eu rheoli'n briodol.**

# 3. Lleihau effaith absenoldeb athrawon ar ddysgwyr

33. Mae'r Pwyllgor yn pryderu am yr effaith bosibl ar addysg dysgwyr sy'n cael gwersi gan athrawon cyflenwi. Mae'n hanfodol y cymerir pob cam posibl i leihau'r effaith honno, ac mae'r bennod hon yn trafod rhai o'r opsiynau hynny.

**Annog arweinwyr ysgolion i dalu mwy o sylw i effaith gwersi gan athrawon cyflenwi ar gynnydd dysgwyr.**

34. Yn ôl adroddiad Estyn *Effaith absenoldeb athrawon*:

> "At ei gilydd, mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, pan fydd yr athro dosbarth arferol yn absennol, bydd disgyblion yn gwneud llai o gynnydd o ran datblygu eu medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth, ac mae ymddygiad yn y dosbarth yn waeth." [24]

35. Yn ei adroddiad, daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad canlynol:

> "Nid yw Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn rhoi digon o ystyriaeth i effaith absenoldeb athrawon yn eu mesurau i helpu ysgolion i sicrhau deilliannau gwell ar gyfer dysgwyr."[25]

36. Mae canfyddiadau'r ddau adroddiad yn awgrymu nad yw Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol ac ysgolion wedi asesu, fel mater o drefn, effaith y trefniadau cyflenwi ar ddysgwyr. Cydnabuwyd hyn gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol a ddywedodd:

> "We have not monitored it closely enough. I think that our suspicion was that this was not being monitored effectively and we have been proved right. We still have the issue—and this is the challenge for Welsh Government, as policy makers working with delivery partners, whom we cannot forget in this—of too much variability not just in how local authorities treat the effectiveness of cover, but how schools treat it. In some areas, the heads will take a very active role, and in some it will be left to cover supervisors. We have situations where, in some

---

[24] Estyn, *Effaith absenoldeb athrawon*, Medi 2013, tudalen 7, paragraff 18
[25] Swyddfa Archwilio Cymru, *Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon*, Medi 2013, tudalen 10

> schools, for example, if a teacher is away for a day, they might bring in a high-level teaching assistant, and in others schools we have a position where it might be 10 days where the HLTA might be covering. So, we do not have that granularity, I suppose."[26]

37. Mae'r Pwyllgor yn bryderus iawn nad yw effaith y trefniadau cyflenwi ar gynnydd dysgwyr wedi cael ei fonitro fel mater o drefn. O gofio bod canran sylweddol o wersi yn cael eu haddysgu gan athrawon cyflenwi, mae'n hanfodol bod y rhai sy'n llunio polisi a'r rhai sy'n ei weithredu yn deall yr effaith y mae hyn yn ei gael ar ddisgyblion, er mwyn mesur ei effeithiolrwydd.

38. Wrth ystyried a yw penaethiaid yn deall effaith y trefniadau cyflenwi ar ddysgwyr dywedodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol wrth y Pwyllgor:

> "Rwy'n credu bod y prifathrawon gorau yn deall. Mae'r prifathrawon nad ydynt ymysg y goreuon heb ddeall. Fel ym mhob maes, bydd rhai pobl yn deall yn gyflymach nag eraill. Ar ddiwedd y dydd, mae llawer o'r gwella rydym yn ei ddisgwyl wrth ysgolion yn dod o'r prifathro ac felly mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr, unwaith eto, fod rhyw fath o *scrutiny* o sut y maent yn edrych ar y materion hyn o fewn eu hysgolion ond hefyd ein bod yn edrych ar sut yr ydym yn ceisio helpu'r prifathrawon hynny i ddeall bod hyn yn bwysig a dyma'r math o bethau y dylent fod yn edrych arnynt. Felly, un o'r pethau byddem yn gobeithio a fydd yn dod allan o newid y fframwaith a'r ffordd mae Estyn yn mynd i mewn i arolygu yw bod prifathrawon a llywodraethwyr yn edrych mewn llawer mwy o fanylder ar sut mae delio ag absenoldeb yn gweithio yn yr ysgol."[27]

39. Hefyd, dywedodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol wrth y Pwyllgor y bydd gwybodaeth am reoli gwasanaethau cyflenwi yn rhan o gyfres o ddangosyddion y maent yn bwriadu'u paratoi a'u darparu i lywodraethwyr a rhieni. Eglurodd ei fod yn awyddus i wneud yn siŵr

[26] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 21 Ionawr 2014, paragraff 39
[27] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 21 Ionawr 2014, paragraff 64

bod gan rieni, yn ogystal â llywodraethwyr, rôl bwysig o ran dal ysgolion i gyfrif am eu perfformiad.[28]

40. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol wrth y Pwyllgor bod Llywodraeth Cymru:

> "…are working with Estyn at the moment to ensure that its inspection framework actually does peer into how effective the use of cover by supply teachers is."

41. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor y byddai'r newidiadau hyn yn cael eu gweithredu ym mis Medi 2015, ar ôl i'r fframwaith arolygu gael ei newid. Hefyd, dywedwyd wrth y Pwyllgor nad oedd bwriad i gynnal adolygiad thematig o'r newidiadau i'r canllawiau arolygu yn 2016-17. Dywedodd y Cyfarwyddwr Grŵp wrth y Pwyllgor:

> "We have given it two years to embed in there. This will pull everything together in one source"

42. Yn dilyn y sesiwn dystiolaeth, gofynnodd y Pwyllgor am gyngor gan yr Archwilydd Cyffredinol ynghylch a oedd angen gwneud newidiadau i'r fframwaith arolygu, cyn bod cyflenwi yn dod yn rhan o arolygiadau Estyn, gan ei fod yn pryderu am yr amser yr oedd ei angen i'r newid hwn gael ei gyflwyno. Yn ôl yr Archwilydd Cyffredinol:

> "The current inspection framework for schools does not rule out consideration of cover arrangements but it does not specifically refer to them. Therefore, to ensure that staff absence and cover arrangements are given more specific consideration, Estyn would not need to change its inspection framework; it would only need to amend the guidance."

43. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r bwriad bod arolygiadau Estyn yn rhoi mwy o ffocws i drefniadau cyflenwi. Rydym yn credu y bydd hyn yn annog penaethiaid a llywodraethwyr i dalu mwy o sylw i effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau cyflenwi. At hynny, rydym yn croesawu'r ymrwymiad i lunio a chyhoeddi rhagor o wybodaeth am reoli gwasanaethau cyflenwi.  Bydd hyn yn caniatáu ar gyfer mwy o graffu ar y trefniadau, a bydd, gobeithio, yn arwain at well darpariaeth ar gyfer dysgwyr.

[28] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 21 Ionawr 2014, paragraff 49

44. Mae'r Pwyllgor, fodd bynnag, yn pryderu ynghylch sut y bydd hyn yn gweithio'n ymarferol a sicrhau bod y newidiadau yn arwain at y canlyniadau a ddymunir. Byddem yn hoffi gweld y canllawiau yn cael eu newid erbyn mis Medi 2014, gydag adolygiad yn cael ei wneud, ynghyd ag unrhyw newidiadau dilynol, erbyn mis Medi 2015. Byddai hyn yn sicrhau y gallai'r Llywodraeth fodloni ei hun ynghylch effeithiolrwydd y trefniadau cyflenwi cyn gynted ag y bo modd. Bydd y Pwyllgor yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd yn hyn o beth maes o law.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru:**
**a) amlinellu sut y mae'n disgwyl i Estyn arolygu dosbarthiadau dan arweiniad athrawon cyflenwi, ac adrodd amdanynt;**
**b) newid y canllawiau ar gyfer arolygiadau Estyn erbyn mis Medi 2014 i'w gwneud yn ofynnol i arolygwyr roi ystyriaeth benodol i'r trefniadau cyflenwi;**
**c) darparu tystiolaeth glir i'r Pwyllgor bod y dull hwn yn gweithio gan nodi'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg yn y dull hwn, erbyn mis Medi 2015.**
**Rydym yn disgwyl i'r wybodaeth ddiweddaraf am fanylion y newidiadau i'r canllawiau, a braslun o'r modd y mae'r dull diwygiedig yn gweithio, gael ei chyflwyno i'r Pwyllgor erbyn mis Ionawr 2015.**

## Rheoli trefniadau cyflenwi yn well i leihau eu heffaith ar ddysgwyr

45. Yn ogystal â bod angen i ysgolion gael gwell dealltwriaeth gyffredinol o effaith cyflenwi ar gynnydd dysgwyr, canfu'r Archwilydd Cyffredinol y gallai ysgolion wneud mwy i reoli'r trefniadau cyflenwi yn fwy effeithiol, a lleihau ei effaith. Canfu'r adroddiad mai anaml y bydd ysgolion yn gwerthuso effeithiolrwydd swyddi goruchwylwyr cyflenwi a chynorthwywyr addysgu lefel uwch o ran eu heffaith ar ddysgwyr. Canfu hefyd nad yw awdurdodau lleol yn gwerthuso effeithiolrwydd y gwasanaeth cyflenwi y maent yn ei ddarparu.

46. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, derbynia Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru bod rheoli gwasanaethau cyflenwi yn effeithiol yn hanfodol i leihau eu heffaith, a noda fel a ganlyn:

> "…the WLGA is seeking to identify good practice within Wales with regards to covering teacher absence, including strategies

to manage the use of supply teachers from private sector agencies."[29]

47. Yn ei hymateb ysgrifenedig i'r Pwyllgor, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i weithio gyda phartneriaid i ddosbarthu canllawiau i ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia ar reoli gwasanaethau cyflenwi, gan gynnwys polisïau enghreifftiol, yn effeithiol.[30]

48. Unwaith eto, mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ymrwymiadau i ddosbarthu canllawiau ac arferion da yn y maes hwn, ond mae'n pryderu pa mor effeithiol fydd hyn. Mae'n hanfodol bod effeithiolrwydd y gwasanaeth cyflenwi yn cael ei fonitro i sicrhau ei fod yn werth yr arian, a bydd y Pwyllgor yn dychwelyd at hyn yn y dyfodol.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi amserlen ar gyfer dosbarthu canllawiau ynghylch rheoli trefniadau cyflenwi yn effeithiol, ynghyd â chynllun ar gyfer gwerthuso'r canllawiau hynny. Byddai'r Pwyllgor yn disgwyl cael y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith hwn erbyn mis Ionawr 2015.**

### Effaith trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb o ran polisïau a mentrau Llywodraeth Cymru.

49. Mae llawer iawn o absenoldeb athrawon, ac felly'r angen am drefniadau cyflenwi, yn deillio o bolisïau a mentrau Llywodraeth Cymru. Yn ôl yr Archwilydd Cyffredinol:

> "Un rheswm dros absenoldeb athrawon o'r ystafell ddosbarth (ac un ffactor sy'n ysgogi'r angen am ddarpariaeth gyflenwi) yw galluogi athrawon i gymryd rhan mewn digwyddiadau sy'n gysylltiedig â pholisïau a mentrau'r llywodraeth. Mae Llywodraeth Cymru'n talu grantiau am ddarpariaeth gyflenwi i annog ysgolion i ryddhau athrawon i fynychu hyfforddiant, cyfarfodydd a chynadleddau perthnasol, ac am amser nad yw'n cael ei dreulio'n addysgu. Roedd 14 awdurdod lleol yn darparu gwybodaeth ynglŷn â faint o wariant ar drefniadau cyflenwi a gâi ei adennill o grantiau. Awgryma'r wybodaeth fod tua un rhan o chwech o'r gwariant ar gyflenwi yn cael ei adennill o grantiau Llywodraeth Cymru."[31]

[29] Tystiolaeth Ysgrifenedig, PAC(4)-02-14 (papur 3), 21 Ionawr 2014
[30] Tystiolaeth Ysgrifenedig, PAC(4)-02-14 (papur 1), 21 Ionawr 2014
[31] Swyddfa Archwilio Cymru, *Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon*, Medi 2013, tudalen 35, paragraff 3.3

50. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, cydnabu Llywodraeth Cymru y materion hyn a dywedodd y byddai'n adolygu i ba raddau y mae ei pholisïau yn cynyddu'r galw am ddarpariaeth gyflenwi. Dywedodd hefyd y bydd yn ystyried y goblygiadau ar gyfer cyflenwi yn y canllawiau ar gyfer cynlluniau grant y dyfodol.[32] Pan holwyd Llywodraeth Cymru ymhellach gan y Pwyllgor, dywedodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol:

> "Obviously, we do not apologise for increasing considerably the amount of training that we are funding through the various grants and programmes, but we realise that it is putting pressure on schools and causing unnecessary absence. There is better planning. As I have said, we now also have a portfolio across the department, so, when a new or existing grant is going out, we need to have shown that we have looked at the sort of impact that that will have. So, for example, on the pupil deprivation grant, and on the schools effectiveness grant, we are introducing criteria retrospectively to try to support the minimisation of teachers being away."[33]

51. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol wrth y Pwyllgor bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddatblygu dulliau hyfforddi nad ydynt yn cymryd athrawon allan o'r ystafell ddosbarth, fel cymorth ysgol-i-ysgol a chymorth gan gyfoedion. Dywedodd y Cyfarwyddwr Grŵp wrth y Pwyllgor:

> "The development of those alternatives and the use of twilight sessions, as well as the closure days within schools, are important. Elements of current Welsh Government programmes use those alternative methods, one of which is the national support programme for the literacy and numeracy framework, which involves a lot of in-school support within classrooms.
>
> "Another aspect that should not be underestimated is the impact of web-based learning in terms of exemplar materials from school to school. That involves film footage, interactive footage, webinar discussion groups, et cetera; they are very powerful tools in terms of moving teacher practice forward. We

[32] Tystiolaeth Ysgrifenedig, PAC(4)-02-14 (papur 2), 21 Ionawr 2014
[33] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 21 Ionawr 2014, paragraff 140

> have certainly definitely seen that in terms of our work with 16-year-olds to improve mathematics teaching."[34]

52. Mae gan ysgolion nifer o ddiwrnodau hyfforddiant mewn swydd (HMS) pryd y disgwylir i staff gwblhau hyfforddiant neu wneud tasgau gweinyddol. Gofynnodd y Pwyllgor a allai ysgolion reoli effaith yr angen am rywfaint o ddarpariaeth gyflenwi trwy ddefnyddio diwrnodau HMS yn fwy effeithiol. Dywedodd y Dirprwy Gyfarwyddwr wrth y Pwyllgor:

> "…we asked Estyn to look at within the last year or so was how schools use their statutory INSET days. On the whole, it has provided quite a positive report about how schools were already using their INSET days, because I think that, anecdotally, we have occasionally received the opposite views. So, that was reassuring."[35]

53. Yn ogystal â'r anghenion hyfforddi, mynegwyd pryder hefyd bod datblygu'r consortia addysg rhanbarthol, trwy ddefnyddio'r adnoddau addysgu, wedi creu galw ychwanegol am wasanaethau cyflenwi.

54. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i fod yn llai dibynnol ar hyfforddiant sy'n cymryd staff allan o'r ystafell ddosbarth, oherwydd bydd hynny'n lleihau'r angen am wasanaeth cyflenwi. Byddem yn annog y Llywodraeth i edrych ar yr holl opsiynau posibl, fel sesiynau min nos ac e-ddysgu. Yn ogystal â hyn, rydym yn disgwyl i'r Llywodraeth edrych ar ei holl bolisïau, fel datblygu consortia rhanbarthol, i ystyried yr effaith ar y trefniadau cyflenwi.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwerthuso ei holl bolisïau, fel datblygu gwahanol fathau o hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus sy'n dibynnu llai ar fod athrawon yn absennol o'r ystafell ddosbarth, a galwadau'r consortia rhanbarthol ar ysgolion, a'i bod yn ystyried yr effaith a gafodd y rhain ar yr angen am wasanaeth cyflenwi. Gofynnwn i ganlyniad y gwerthusiad gael ei adrodd i'r Pwyllgor erbyn mis Ionawr 2015.**

[34] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 21 Ionawr 2014, paragraff 140 -141
[35] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 21 Ionawr 2014, paragraff 144

**Gwella datblygiad proffesiynol parhaus athrawon cyflenwi**

55. Yn ogystal â rheoli'r angen am wasanaeth cyflenwi, mae'n bwysig sicrhau bod athrawon cyflenwi yn gallu manteisio ar ddatblygiad proffesiynol parhaus er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl ar ddysgwyr, o ran ansawdd yr addysgu.

56. Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol nad yw ysgolion bob amser yn rhoi digon o gymorth i athrawon cyflenwi i'w galluogi i wneud eu gwaith i'r safon uchaf. Canfu mai anaml y byddai athrawon cyflenwi yn cael adborth ystyrlon ar berfformiad, a bod rhai pethau yn eu rhwystro rhag cymryd rhan mewn dysgu a datblygu proffesiynol.[36]

57. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, cytunodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru â chanfyddiadau adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol y dylai athrawon cyflenwi gael eu hyfforddi'n dda. Cytunodd hefyd y dylent gael eu cynnwys yn y cylch rheolaidd o hyfforddiant mewn ysgolion lle maent yn cyflenwi ar gyfer athrawon sydd wedi cynllunio i fod yn absennol neu sy'n absennol am gyfnod hir.[37]

58. Nid oedd yn glir i'r Pwyllgor pam na ddylai athrawon cyflenwi gael y cyfle i fynd i ddigwyddiadau hyfforddiant yr ysgolion. Holodd y Pwyllgor Lywodraeth Cymru am hyn, a dywedodd y Dirprwy Gyfarwyddwr wrthym:

> "I do not think there is any reason why that should not happen. One of the difficulties that we have is actually making contact with supply teachers. Obviously, most teachers can be contacted through their school; it is a little harder to make contact with supply teachers. We discussed with the GTCW what level of access we could have to contact information for supply teachers that it holds on its register, and that would at least enable us to then start providing supply teachers with tailored information and perhaps invitations to particular events."[38]

59. Mae'r Pwyllgor yn pryderu am bethau fel amseru, cost a cholli gwaith â thâl, a nodwyd yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, sy'n rhwystro athrawon cyflenwi rhag cymryd rhan mewn hyfforddiant. Mae

---

[36] Swyddfa Archwilio Cymru, *Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon*, Medi 2013, paragraff 2.15-2.24
[37] Tystiolaeth Ysgrifenedig, PAC(4)-02-14 (papur 3), 21 Ionawr 2014
[38] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 21 Ionawr 2014, paragraff 192

angen mynd i'r afael â'r rhain os yw athrawon cyflenwi yn debygol o fanteisio ar y cyfle i fynd i ddigwyddiadau hyfforddiant yr ysgolion.[39] Mae'r Pwyllgor hefyd yn pryderu nad oes ffordd effeithiol i Lywodraeth Cymru gyfathrebu'n uniongyrchol â staff cyflenwi. Mae'n hanfodol, os yw mentrau yn y maes hwn i weithio, bod modd trosglwyddo'r neges i athrawon cyflenwi.

60. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol wrth y Pwyllgor:

> "Un o'r pethau a ddaeth allan o waith y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc oedd bod amheuaeth bod yr asiantaethau yn enwedig yn gweld CPD fel rhywbeth oedd yn ymwneud â safeguarding, health and safety a phethau fel hynny yn unig.
>
> "Mae yna lawer iawn mwy i wneud efo CPD na'r ddau bwnc hynny. Un o'r trafodaethau y byddwn yn eu cael gyda'r asiantaethau fis nesaf yw sut y gallwn wella hynny."[40]

61. Croesawodd y Pwyllgor y sicrwydd gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol y byddai Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn ogystal â thrafod hyn gyda'r asiantaethau, yn gweithio i gynnwys mwy o ofynion ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus yn y broses ail-dendro am y contractau fframwaith cenedlaethol ar gyfer athrawon cyflenwi, sy'n digwydd yn 2015.

62. Awgrymwyd gan Lywodraeth Cymru y gallai ysgolion fod â rôl mewn codi safonau drwy gynyddu eu disgwyliadau o athrawon cyflenwi a gofyn am safonau uwch o hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer staff o asiantaethau cyflenwi. Dywedodd y Dirprwy Gyfarwyddwr wrth y Pwyllgor:

> "Schools hold the key to this because they are the ones that commission the supply worker agencies to provide them with people. They are asking the local authorities to send them people from their pool. Through our guidance, we hope to encourage headteachers to raise their expectations and to become far more fussy about the quality of the practitioners who come into their school, and for them to take the line that anyone standing in front of their pupils is an important person who will have an impact on the quality of learning and the

[39] Swyddfa Archwilio Cymru, *Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon*, Medi 2013, paragraff 3.7-3.8
[40] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 21 Ionawr 2014, paragraff 71

> quality of learner outcomes. That starts to send a message back to the employers of those supply workers that they need to provide people who are equipped with the appropriate skills and training to provide the services required at schools."

63. Hoffai'r Pwyllgor weld gwelliant mewn mynediad i ddatblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer athrawon cyflenwi. Rydym yn credu y bydd hyn yn helpu i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol bod rhai gwersi dan arweiniad athrawon cyflenwi yn fwy o *'gadw dosbarth yn dawel'* na dim arall, oherwydd bydd yr athrawon cyflenwi yn cymryd mwy o ddiddordeb a dylai hyn wella ansawdd yr addysgu. Er bod y Pwyllgor yn cytuno â'r syniad y dylai ysgolion fod yn mynnu athrawon o ansawdd gwell, rydym yn parhau i bryderu nad yw athrawon cyflenwi yn cael mynediad at yr hyfforddiant priodol.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i sicrhau bod datblygiad proffesiynol parhaus drwy ysgolion ac awdurdodau lleol ar gael i athrawon cyflenwi, ac yn sicrhau eu bod yn datblygu dull effeithiol o roi gwybod i athrawon cyflenwi am y cyfleoedd hyn.**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chynrychiolwyr o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, asiantaethau cyflenwi ac ysgolion i ddatblygu'r fanyleb ar gyfer aildendro'r contract fframwaith ar gyfer staff cyflenwi ysgolion. Dylai'r fanyleb ei gwneud yn ofynnol bod staff cyflenwi yn gallu cael gafael ar ddatblygiad proffesiynol parhaus, a dylai gynnwys trefniadau i adennill oddi wrth yr asiantaethau cyflenwi unrhyw gostau ychwanegol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus staff cyflenwi.**

### Effeithiolrwydd y trefniadau newydd ar gyfer athrawon newydd gymhwyso sy'n ymsefydlu ac yn ymgymryd â'r Meistr mewn Ymarfer Addysgol drwy gyfrwng gwaith cyflenwi

64. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru drefniadau newydd ym mis Medi 2012 i ganiatáu i athrawon sydd newydd gymhwyso gwblhau eu cyfnod ymsefydlu statudol tra'r oeddynt yn gweithio fel athrawon

cyflenwi, ac i gael cyfle i ennill y radd Meistr newydd mewn Ymarfer Addysgol.[41]

65. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor bod 534 o athrawon cyflenwi wedi cofrestru gyda Chyngor Athrawon Cyffredinol Cymru ac wedi nodi eu bod yn ymgymryd â'u cyfnod ymsefydlu, ac roedd 13 o athrawon cyflenwi wedi cofrestru ar gyfer y radd Meistr mewn Ymarfer Addysgol.[42]

66. Holodd y Pwyllgor Lywodraeth Cymru a oedd ganddi unrhyw ddisgwyliadau am y gyfran o athrawon cyflenwi a oedd wedi cofrestru eu bod ar gyfnod ymsefydlu statudol. Dywedodd y Dirprwy Gyfarwyddwr wrth y Pwyllgor:

> "It is a requirement on all registered teachers now to have undergone induction. In that sense, that has not changed. What we have done is to introduce a number of measures to improve access to induction for supply teachers. We have made it much easier for supply teachers to register short-term periods of employment as part of their induction period, whereas, previously, anything short of a term could not be counted. They can now count each session, which is a half day, towards their induction period. Therefore, over an extended period of time, they can achieve the necessary number of sessions to meet the induction requirement."[43]

67. Fodd bynnag, o ran y newidiadau i'r broses ymsefydlu, canfu'r Archwilydd Cyffredinol yn ei adroddiad:

> "...nid oedd y rhan fwyaf o'r athrawon cyflenwi y siaradom â hwy yn hydref 2012 fel rhan o'r astudiaeth hon yn ymwybodol o'r newidiadau er bod proses ymgynghori wedi'i chynnal yn ystod gwanwyn 2012."[44]

68. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r newidiadau i'r trefniadau ymsefydlu ar gyfer athrawon cyflenwi, a ddylai eu helpu i gwblhau eu cyfnod ymsefydlu a chael y cymorth sy'n dod gyda hynny. Fodd bynnag, byddem yn croesawu sicrwydd gan Lywodraeth Cymru fod hyn bellach

---

[41] Llywodraeth Cymru, *Meistr mewn Ymarfer Addysgol*, Medi 2012
[42] Tystiolaeth Ysgrifenedig, PAC(4)-06-14 (papur 2), Eitem 5, 18 Chwefror 2014
[43] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 21 Ionawr 2014, paragraff 128
[44] Swyddfa Archwilio Cymru, *Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon*, Medi 2013, paragraff 3.16

yn cael ei gyfathrebu'n effeithiol i'r holl athrawon sydd newydd gymhwyso, gan gynnwys athrawon cyflenwi.

69. Eglurodd y Dirprwy Gyfarwyddwr wrth y Pwyllgor y bydd nifer yr athrawon cyflenwi a fydd yn ymgymryd â'r cwrs Meistr mewn Ymarfer Addysgol yn gyfyngedig oherwydd:

> "… although supply teachers have the same access, in theory, to the Master's programme as other teachers, they all have to meet the same eligibility criteria, and passing those eligibility criteria requires a minimum length of contract, and employment at the particular time of year when the Master's programme starts. The length of contract stipulation is really to reflect the practice-based nature of the MEP programme, which requires extended contact with the same groups of pupils, which, of course, is a difficulty for some supply teachers."[45]

70. Mae'r cwrs Meistr mewn Ymarfer Addysgol hefyd yn effeithio ar absenoldeb athrawon gan fod angen i athrawon profiadol fod yn fentoriaid allanol. Mae'r rôl hon yn ei gwneud yn ofynnol i athrawon fod yn absennol o'u gwaith arferol am gyfnodau, a gall greu galw ychwanegol am athrawon cyflenwi.

71. Cododd y Pwyllgor bryderon bod yr athrawon profiadol hyn yn cael eu cymryd o'r ystafell ddosbarth i fod yn fentoriaid allanol ar gyfer athrawon sydd newydd gymhwyso, ond nad oeddynt yn cael eu defnyddio'n llawn yn y rôl fentora hon. Yn ogystal â hyn roedd y Pwyllgor yn pryderu bod athrawon a oedd newydd ymddeol yn cael eu diystyru ar gyfer rolau mentora, gan ffafrio athrawon profiadol yr oedd angen eu tynnu o'u rolau yn yr ystafell ddosbarth. Gallai hyn effeithio ar effeithiolrwydd ysgolion. Pan gafodd ei holi, dywedodd Llywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor fod hwn yn faes o weithgarwch a oedd yn cael ei ymchwilio. Hoffai'r Pwyllgor weld gwerth am arian yn cael ei ystyried yn yr ymchwiliadau hyn, yn enwedig o ran defnyddio mentoriaid allanol. Mae'r Pwyllgor yn credu bod gwerth yn y cynllun mentora; fodd bynnag, mae'r trefniadau presennol yn codi nifer o bryderon. Hyd yn oed lle mae trefniadau cyflenwi effeithiol wedi'u gwneud ar gyfer absenoldeb neu pan fo athrawon sydd newydd ymddeol yn gweithredu fel mentoriaid, mae peidio â defnyddio'r

[45] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 21 Ionawr 2014, paragraff 135

mentoriaid hyn yn llawn yn codi cwestiynau a yw'r rhaglen hon yn werth yr arian.

72. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud gwerthusiad ffurfiol o'r cwrs Meistr mewn Ymarfer Addysgol yn 2015. Cafodd y Pwyllgor wybodaeth am yr adborth cychwynnol ar y cwrs Meistr mewn Ymarfer Addysgol. Roedd hyn yn cynnwys adborth gan y cyfranogwyr a'r mentoriaid ond nid oedd yn cynnwys dadansoddiad o'r rhai a gofrestrodd, costau'r Meistr mewn Ymarfer Addysgol, na dadansoddiad o absenoldeb athrawon oherwydd anghenion mentora'r rhaglen. Rhaid i'r rhain gael eu cynnwys yn y gwerthusiad o'r rhaglen hon yn 2015 er mwyn sicrhau y gellir asesu gwerth am arian.[46] Byddai'r Pwyllgor hefyd yn hoffi gweld ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i'r rhaglen fentora, i sicrhau ei bod yn cael ei defnyddio i'w llawn botensial.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnwys costau'r cwrs Meistr mewn Ymarfer Addysgol, a'r nifer sy'n cofrestru arno, wrth werthuso'r rhaglen.**

**Rydym hefyd yn argymell bod gwerthusiad yn cael ei wneud o elfen mentoriaid y rhaglen Meistr mewn Ymarfer Addysgol cyn diwedd 2014 er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon nad yw'n sicrhau gwerth am arian. Dylai'r gwerthusiad gynnwys ystyried defnyddio athrawon sydd newydd ymddeol fel mentoriaid ac effaith tynnu athrawon profiadol o'r ystafelloedd dosbarth i'w defnyddio fel mentoriaid.**

[46] Tystiolaeth Ysgrifenedig, PAC(4)-06-14 (papur 2), 18 Chwefror 2014

# 4. Trefniadau cyflenwi costeffeithiol a diogel

73. Wrth ddefnyddio trefniadau cyflenwi i reoli absenoldeb athrawon, mae'n bwysig bod y trefniadau hynny'n gosteffeithiol ac yn ddiogel. Mae'r bennod hon yn archwilio'r themâu hyn yn fanylach.

**Sicrhau bod arian sy'n cael ei wario ar drefniadau cyflenwi yn cael ei reoli'n fwy effeithiol**

74. Gwariwyd mwy na £50 miliwn gan ysgolion ar drefniadau cyflenwi yn 2011. Fodd bynnag, canfu adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol mai ychydig y mae awdurdodau lleol yn ei wneud i fonitro pa mor gosteffeithiol yw eu trefniadau. Noda'r adroddiad fel a ganlyn:

> "Mae asesu pa mor gosteffeithiol yw trefniadau cyflenwi'n galw am fonitro a dadansoddi gofalus i sicrhau na cheir mwy o ddarpariaeth gyflenwi nag sydd ei hangen, a bod trefniadau cyflenwi'n cynnig y cynnydd gorau i ddisgyblion am gyn lleied o gost â phosibl. Fodd bynnag, ni welsom enghreifftiau o ysgolion neu awdurdodau lleol lle cynhelir y math hwn o ddadansoddiad fel mater o drefn."[47]

75. Holodd y Pwyllgor swyddogion Llywodraeth Cymru a yw cyrff llywodraethu ysgolion ac awdurdodau lleol yn monitro'r gwariant ar drefniadau cyflenwi. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol wrthym:

> "I would be surprised—although, sometimes, I should not be—if headteachers were not monitoring the spend. I think that it is more about the effectiveness. We have struggled sometimes with the local authorities aggregating up those data to see what the total picture is. So, even now, I think that the Wales Audit Office struggled with two or three local authorities to get accurate data and what they are. One of the things that will hopefully improve through this process is that they will monitor the spend not only at the school level, but what is aggregated up and will see whether there are any issues on a local authority basis. I think that local authorities will have to get more cognisant of what their benchmark spend is against other

[47] Swyddfa Archwilio Cymru, *Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon*, Medi 2013, tudalen 42, paragraff 4.3

> areas, and whether that constitutes effective value for money, or not."[48]

76. Mae'r Pwyllgor o'r farn nad yw'n dderbyniol i beidio ag asesu pa mor gosteffeithiol yw trefniadau cyflenwi ar unrhyw lefel (ysgolion, awdurdodau lleol neu lywodraeth genedlaethol). Heb wneud hyn, mae'n anodd iawn asesu a geir gwerth am arian o'r symiau sylweddol hyn o arian cyhoeddus. Mae'r Pwyllgor yn disgwyl i Lywodraeth Cymru gymryd arweiniad cryf o ran ei gwneud yn ofynnol i werthuso'n rheolaidd pa mor gosteffeithiol yw'r trefniadau, a thrafod hynny.

77. Mae'r Pwyllgor yn nodi nad yw tâl ac amodau athrawon wedi'u datganoli i Gymru, ac nad oes gan Lywodraeth Cymru reolaeth dros dâl asiantaethau, ac nad yw'n gallu cyfarwyddo sut y mae ysgolion yn cael eu staff cyflenwi. Fodd bynnag, mae'r ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru yn datgan y bydd yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i nodi unrhyw fesurau sicrhau ansawdd a ddylai fod yn rhan o unrhyw fanyleb ar gyfer contractau fframwaith yn y dyfodol.[49]

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn casglu rhagor o wybodaeth am raddau a chost y trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi amserlen a chynllun ar gyfer casglu'r wybodaeth hon ac yn rhoi manylion ynghylch sut y caiff gwerth am arian ei fonitro a'i werthuso.**

## Cadw disgyblion yn ddiogel

78. Canfu adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol nad yw pob ysgol yn sicrhau bod gweithdrefnau diogelu yn eu lle ar gyfer staff dros dro. Canfu'r adroddiad fel a ganlyn:

> "Ni cheir cyfarwyddyd eglur i ysgolion yng Nghymru sy'n nodi'r ymholiadau y dylai ysgolion eu cynnal cyn i'r gwaith ddechrau."[50]

79. Yn ymateb ysgrifenedig Llywodraeth Cymru nodir bod rhaid i ysgolion ac awdurdodau lleol dalu sylw i ganllawiau Llywodraeth

---

[48] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 21 Ionawr 2014, paragraff 163
[49] PAC(4)-02-14 (papur 2), 21 Ionawr 2014
[50] Swyddfa Archwilio Cymru, *Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon*, Medi 2013, paragraff 2.28

Cymru ar drefniadau diogelu. Mae'n mynd ymlaen i ddweud y bydd yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ac Estyn i nodi unrhyw fesurau ychwanegol sydd eu hangen i sicrhau bod ysgolion yn cydymffurfio'n llawn â gweithdrefnau diogelu.[51]

80. Mae hyn yn peri pryder difrifol i'r Pwyllgor. Canfu adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol mai dim ond yr asiantaeth sy'n dal y ddau gytundeb cenedlaethol sy'n gorfod bodloni unrhyw ofynion penodol ar gyfer gwiriadau cyn-gyflogaeth, ers diddymu'r nod ansawdd yn 2010. Mae hyn yn golygu bod nifer o asiantaethau eraill sy'n cyflenwi staff nad oes gofyn iddynt gynnal unrhyw wiriadau.

81. Cododd y Pwyllgor bryderon nad yw ysgolion a llywodraethwyr yn cyflawni eu cyfrifoldebau diogelu o ran gwiriadau cyn-gyflogaeth, ac yn darparu staff cyflenwi â'r wybodaeth ddiogelu angenrheidiol. Pan ofynnwyd am ganllawiau diogelu, sicrhaodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol y Pwyllgor:

> "That guidance exists, but we will be bringing it together in the consolidated guidance."[52]

82. Mae'n hanfodol nad yw diogelwch dysgwyr mewn ysgolion yn cael ei beryglu gan yr angen am wasanaeth cyflenwi yn yr ystafell ddosbarth. Rhaid i'r angen i gwblhau'r gwiriadau diogelu angenrheidiol fod yn glir yn yr holl ganllawiau. Mae angen i'r canllawiau fod yn syml ac yn hygyrch, er mwyn sicrhau bod y cyfrifoldebau diogelu yn cael eu bodloni.

83. O ystyried y ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i hawliau plant, mae'r Pwyllgor yn credu ei bod yn hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn monitro effaith y canllawiau a gyhoeddwyd i sicrhau bod y camau diogelu angenrheidiol yn eu lle.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod canllawiau arfaethedig Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â'r materion diogelu a nodwyd ar gyfer staff dros dro, ac yn gwneud hynny'n glir, a bod Llywodraeth Cymru yn datblygu dull effeithiol o wirio bod y canllawiau yn cael eu dilyn. Dylai'r Pwyllgor gael y wybodaeth ddiweddaraf am hyn erbyn mis Ionawr 2015.**

---

[51] PAC(4)-02-14 (papur 2), 21 Ionawr 2014
[52] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 21 Ionawr 2014, paragraff 202

# Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn y sesiynau tystiolaeth lafar yn www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=1311.

*Dydd Mawrth, 15 Hydref 2013*

| | |
|---|---|
| Huw Vaughan Thomas | Archwilydd Cyffredinol Cymru |
| Stephen Martin | Rheolwr Archwilio Perfformiad, Swyddfa Archwilio Cymru |
| Meilyr Rowlands | Cyfarwyddwr Strategol, Estyn |

*Dydd Mawrth 21 Ionawr 2014*

| | |
|---|---|
| Owen Evans | Cyfarwyddwr Cyffredinol, yr Adran Addysg a Sgiliau, Llywodraeth Cymru |
| Dr Bret Pugh | Cyfarwyddwr y Grŵp Safonau a Gweithlu Ysgolion |
| Phil Jones | Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Safonau Ymarferwyr a Datblygu Proffesiynol |

## Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn www.senedd.cynulliadcymru.org/ieIssueDetails.aspx?IId=7550&Opt=3

| *Sefydliad* | *Cyfeirnod* |
|---|---|
| Owen Evans, Cyfarwyddwr Cyffredinol, yr Adran Addysg a Sgiliau, Llywodraeth Cymru | PAC(4)-02-14 Papur 1 |
| Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru | PAC(4)-02-14 Papur 2 |
| Dr Chris Llewellyn, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | PAC(4)-02-14 Papur 3 |
| Owen Evans, Cyfarwyddwr Cyffredinol, yr Adran Addysg a Sgiliau, Llywodraeth Cymru | PAC(4)-06-14 Papur 2 |
| Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru | PAC(4)-06-14 Papur 3 |
| Owen Evans, Cyfarwyddwr Cyffredinol, yr Adran Addysg a Sgiliau, Llywodraeth Cymru | PAC(4)-08-14(ptn1) |
| Dr Chris Llewellyn, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | PAC(4)-09-14(ptn3) |
| Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru | PAC(4)-09-14(ptn4) |